

# Briff Ymchwil Data Cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 4

---

Awdur: **Michael Dauncey**  
Dyddiad: **Chwefror 2018**



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

---

Awdur: **Michael Dauncey**

Dyddiad: **Chwefror 2018**

Rhif Papur: **18-015**

## Cysylltwch â ni

Y Gwasanaeth Ymchwil  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

☎ : 0300 200 6293

✉ : [Michael.Dauncey@Cynulliad.Cymru](mailto:Michael.Dauncey@Cynulliad.Cymru)

🌐 : [seneddymchwil.blog](http://seneddymchwil.blog)

🐦 : [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

🌐 : [Cynulliad.Cymru/Ymchwil](http://Cynulliad.Cymru/Ymchwil)

## © Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Briff Ymchwil

## Data Cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 4

Mae'r Papur Briffio hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil yn cyflwyno data ar gyrhaeddiad disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae'n canolbwyntio'n arbennig ar gyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Dyma'r mesur procsi i nodi plant sy'n dod o gartrefi sydd ar incwm isel. Nod Llywodraeth Cymru yw gwella cyrhaeddiad y grŵp hwn o ddisgyblion drwy ei strategaeth Ailysgrifennu'r Dyfodol a'i chyllid wedi'i dargedu ar ffurf y Grant Datblygu Disgyblion.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ceisio gwella cyrhaeddiad mewn ysgolion sy'n tanberfformio. Targedodd gyllid a chefnogaeth mewn ysgolion penodol drwy ei rhaglen Her Ysgolion Cymru, a oedd yn rhedeg o 2014 i 2017. Felly, mae'r papur hwn yn edrych ar gyrhaeddiad disgyblion yn yr ysgolion hyn hefyd.

Mae'r Papur Briffio hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil yn diweddarau fersiwn flaenorol o'r papur hwn, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2017, i gynnwys y data cyrhaeddiad terfynol ar gyfer 2017 gan Lywodraeth Cymru. Y bwriad yw iddo lywio ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i gyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau addysgol.

Mae'r papur hwn yn gwneud sylwadau ar newidiadau yng nghyrhaeddiad disgyblion yn 2017 o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, yn seiliedig ar ddata Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw rhai cymariaethau rhwng blynyddoedd yn ddilys yn ystadegol mwyach oherwydd newidiadau mewn mesurau perfformiad. Mae'r newidiadau hyn yn effeithio'n benodol ar fesurau trothwy Lefel 2 a throthwy cynwysedig Lefel 2. Felly, mae'r Papur Briffio hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil hefyd yn defnyddio cyfraddau cyrhaeddiad TGAU A\*-C yn y pynciau craidd.



# Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad .....</b>	<b>1</b>
Trothwy Lefel 2 a throthwy cynwysedig Lefel 2 .....	1
Cyrhaeddiad TGAU mewn pynciau craidd .....	2
Categoriaddio ysgolion .....	3
Mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad o ran amddifadedd .....	3
Cefnogi ysgolion sy'n tanberfformio .....	4
Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.....	4
<b>2. Mynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad.....</b>	<b>5</b>
Y Grant Datblygu Disgyblion .....	5
Data cyrhaeddiad Cymru Gyfan, yn ôl cymhwysedd disgyblion i gael prydau ysgol am ddim .....	7
Data lefel awdurdod lleol a rhanbarthol, yn ôl cymhwysedd am brydau ysgol am ddim.....	16
<b>3. Gwella canlyniadau disgyblion mewn ysgolion sy'n tanberfformio .....</b>	<b>37</b>
Her Ysgolion Cymru.....	37
Data cyrhaeddiad trothwy Lefel 2 a throthwy cynwysedig Lefel 2 yn ysgolion 'Llwybrau Llwyddiant' Her Ysgolion Cymru.....	40
Data cyrhaeddiad pwnc craidd TGAU yn ysgolion 'Llwybrau Llwyddiant' Her Ysgolion Cymru.....	51

# 1. Cyflwyniad

Rhyddhawyd **y data a gyhoeddwyd ddiweddaraf ar gyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 4** gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2017, yn dilyn arholiadau haf 2017. Roedd yr ystadegau terfynol hyn yn diweddarau'r data dros dro a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2017. Diweddarodd Llywodraeth Cymru ei **gwefan Fy Ysgol Leol** gyda data lefel ysgol 2016/17 ar 1 Chwefror 2018.

Mae'r Papur Briffio hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil yn defnyddio'r data hyn i ddadansoddi cynnydd wrth wella canlyniadau disgyblion, yn enwedig ymhlith disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim ac sy'n fuddiolwyr wedi'u targedu i **Grant Datblygu Disgyblion** Llywodraeth Cymru, ac mewn ysgolion a gafodd gymorth ychwanegol o dan **Raglen Her Ysgolion Cymru**.

## Trothwy Lefel 2 a throthwy cynwysedig Lefel 2

Y prif fesur perfformiad a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru yn y blynyddoedd diwethaf yw trothwy cynwysedig Lefel 2. Fodd bynnag, mae newidiadau i'r ffordd y gall cymwysterau gyfrif tuag ato o 2017 ymlaen yn arwain at **anawsterau wrth wneud cymariaethau â blynyddoedd blaenorol**.

- Mae mesur trothwy Lefel 2 yn gyfystyr â 5 TGAU neu fwy ar raddau A\*-C neu'r cyfwerth galwedigaethol.
- Mae trothwy cynwysedig Lefel 2 yn golygu bod yn rhaid i'r 5 TGAU neu fwy hyn neu'r cyfwerth galwedigaethol gynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg.

Y cyfwerthedd galwedigaethol yw'r agwedd ar y mesurau sydd wedi newid yn fwyaf arwyddocaol. O 2017, **efallai na fydd cymwysterau galwedigaethol yn ffurfio dim mwy na 40 y cant** o'r 5 TGAU neu fwy yn y trothwy Lefel 2, h.y. rhaid i ddisgybl ennill o leiaf dri TGAU gwirioneddol ar raddau A\*-C i'w gyflawni. Mae hyn yn adeiladu ar y newid a gyflwynwyd yn 2016 lle na all unrhyw gymhwyster galwedigaethol fod yn werth mwy na'r hyn sydd gyfwerth â dau TGAU mewn mesurau perfformiad.

Roedd cyfran y disgyblion a oedd yn cyflawni'r mesurau diwygiedig ar gyfer trothwy Lefel 2 a throthwy cynwysedig Lefel 2 yn **llai na'r gyfran a oedd yn cyflawni'r fersiynau blaenorol o'r mesurau** yn 2016 (gweler pennod 2 am y data.) Roedd hyn yn **dilyn cynnydd o un flwyddyn i'r llall** yn dyddio'n ôl i'r degawd diwethaf. Mae'n anodd dadansoddi beth mae canlyniadau 2017 yn ei olygu o ran perfformiad, oherwydd y newidiadau yn sut y caiff trothwy Lefel 2 a throthwy cynwysedig Lefel 2 eu mesur erbyn hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud **nad yw cymariaethau rhwng 2017 a blynyddoedd blaenorol yn ddilys yn ystadegol**.<sup>1</sup>

Er bod y newidiadau i fesurau perfformiad yn berthnasol i ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys, ymddengys eu bod wedi arwain at ostyngiad mwy amlwg yng nghyrrhaeddiad trothwy Lefel 2 a throthwy cynwysedig Lefel 2 ymhlith disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Roedd y bwch cyrrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'u cyfoedion yn **ehangach yn 2017, o dan y mesurau diwygiedig ar gyfer trothwy Lefel 2 a throthwy cynwysedig Lefel 2**, nag yr oedd yn y blynyddoedd diwethaf o dan y fersiynau blaenorol o'r mesurau. Roedd hyn yn dilyn **gostyngiadau parhaus** yn y bwch ers 2010.

---

<sup>1</sup> Newid arall i'r mesurau trothwy cynwysedig Lefel 2 yw mai dim ond laith Gymraeg a Saesneg sy'n cyfrif, yn hytrach na Llenyddiaeth Gymraeg neu Saesneg hefyd. Gweler tudalen 1 ac adran Nodiadau **datganiad ystadegol Rhagfyr 2017, blog y Prif Ystadegydd a datganiad i'r wasg Llywodraeth Cymru** ar 6 Rhagfyr am eglurhad pellach.

---

*the cap on the value of non-GCSEs has contributed to a shift away from vocational qualifications towards GCSEs, reversing the trends seen in some subjects in recent years.*

---

Mae'r data ar gyfer 2017 yn dangos y cyfraniad a wnaeth cymwysterau galwedigaethol i berfformiad y blynyddoedd blaenorol yn erbyn trothwy Lefel 2 a throthwy cynwysedig Lefel 2. Mae hefyd yn bosibl bod cyfyngu nifer y cymwysterau galwedigaethol y gellir eu cynnwys yn y trothwy wedi effeithio ar ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim i raddau helaeth os ydynt yn fwy tebygol o gymryd cymwysterau galwedigaethol yn lle TGAU.

## Cyrhaeddiad TGAU mewn pynciau craidd

Mae'r anawsterau wrth gymharu data trothwy Lefel 2 a throthwy cynwysedig lefel 2 gyda blynyddoedd blaenorol yn golygu bod edrych yn agosach ar ddata ar gyfer pynciau unigol yn dod yn fwy perthnasol a defnyddiol.

Y disgyblion ym Mlwyddyn 11 yn 2017 oedd y **garfan flynyddol gyntaf o ddisgyblion a oedd yn sefyll yr arholiadau yn erbyn y manylebau newydd** ar gyfer TGAU Cymraeg, Saesneg a Mathemateg (gan gynnwys Rhifedd Mathemateg am y tro cyntaf). Derbynnir yn gyffredinol fod effaith 'sawtooth' yn aml yn dilyn diwygio cymwysterau.<sup>2</sup> Mae Cymwysterau Cymru a CBAC yn gweithredu **model canlyniadau cymaradwy** i gynnal sefydlogrwydd o ran graddau, a ddylai liniaru, i ryw raddau, yn erbyn unrhyw ystumiad a allai fod yng nghanlyniadau cyffredinol y garfan yn sgil manylebau newydd. Fodd bynnag, ni fyddai hyn bob amser yn gwneud iawn am yr effaith yn llawn, yn arbennig lle nad oes unrhyw beth i'w gymharu ag ef, megis Rhifedd Mathemateg.

Mae gwybodaeth am ganlyniadau cymaradwy a gosod ffiniau ar gyfer graddau ar gael ar [wefan Cymwysterau Cymru](#). Gellir cael eglurhad pellach o'r newidiadau i arholiadau Cymraeg, Saesneg a Mathemateg yn 2017, gan gynnwys haenau mynediad a gwaith cwrs, mewn [erthygl a ysgrifennwyd gan Cymwysterau Cymru ar gyfer blog Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad Cenedlaethol](#) ym mis Awst 2017.

Mae'r data cyrhaeddiad ar gyfer TGAU Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth (a gyflwynwyd ym mhennod 2 y papur hwn) yn nodi **gostyngiad mewn cyrhaeddiad yn 2017 ac ehangu'r bwlch** rhwng cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'u cyfoedion. Ceir trosolwg cryno isod:

- Gostyngodd y gyfran o'r holl ddisgyblion a oedd yn ennill graddau A\*-C mewn **TGAU Saesneg** (y canlyniad gorau o laith neu Lenyddiaeth) o 69.3 y cant yn 2016 i 66.2 y cant yn 2017. Roedd hyn yn dilyn cynnydd o un flwyddyn i'r llall ers 2012 pan oedd yn 62.2 y cant. Ehangodd y bwlch mewn cyrhaeddiad TGAU Saesneg rhwng disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys o 28.6 pwynt canran yn 2016 i 30.8 pwynt canran yn 2017, ar ôl cynnydd parhaus i gau'r bwlch ers 2010. (Gweler **Tabl 3** y papur hwn)
- Gostyngodd y gyfran o'r holl ddisgyblion a oedd yn ennill graddau A\*-C mewn **TGAU Cymraeg** (laith Gyntaf, y canlyniad gorau o laith neu Lenyddiaeth) o 75.1 y cant yn 2016 i 74.5 y cant yn 2017. Fodd bynnag, cododd y gyfradd cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim o 50.9 y cant yn 2016 i 54.4 y cant yn 2017. Lleihaodd y bwlch mewn cyrhaeddiad TGAU Cymraeg

---

<sup>2</sup> I gael trafodaeth bellach ar hyn, gweler cyhoeddiad Ofqual, [An investigation into the 'Sawtooth Effect' in GCSE and AS / A level assessments](#), Medi 2016

rhwng disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys o 26.8 pwynt canran yn 2016 i 22.2 pwynt canran yn 2017. (Gweler **Tabl 4** y papur hwn)

- Gostyngodd y gyfran o'r holl ddisgyblion a oedd yn ennill graddau A\*-C mewn **TGAU Mathemateg** o 66.9 y cant yn 2016 i 62.5 y cant yn 2017. Roedd hyn yn dilyn cynnydd o un flwyddyn i'r llall ers 2010 pan oedd yn 55.7 y cant. Gostyngodd y gyfradd cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn yr un modd o 43.6 y cant yn 2016 i 38.3 y cant yn 2017. Roedd y bwlch mewn cyrhaeddiad TGAU Mathemateg rhwng disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys yn eithaf tebyg, gan ehangu rywfaint o 29.6 pwynt canran yn 2016 i 30.3 yn 2017. (Gweler **Tabl 5** y papur hwn)
- Gostyngodd y gyfran o'r holl ddisgyblion a oedd yn ennill graddau A\*-C mewn **TGAU Gwyddoniaeth** o 84.0 y cant yn 2015 i 82.4 y cant yn 2016 a 75.6 y cant yn 2017. Roedd hyn yn dilyn cynnydd o un flwyddyn i'r llall ers 2010 pan oedd yn 63.6 y cant. Ehangodd y bwlch mewn cyrhaeddiad TGAU Gwyddoniaeth rhwng disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys o 15.0 pwynt canran yn 2016 i 24.0 pwynt canran yn 2017, ar ôl cynnydd parhaus i gau'r bwlch rhwng 2010 a 2015. O 2018 ymlaen, ni fydd cymwysterau gwyddoniaeth galwedigaethol yn cyfrif tuag at y sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio, sy'n fesur perfformiad allweddol. Mae'n bosibl bod hyn wedi arwain at y newid mewn ceisiadau am gymwysterau gwyddoniaeth galwedigaethol i gymwysterau TGAU Gwyddoniaeth, i baratoi ar gyfer y newidiadau yn 2018. Gallai hyn fod wedi effeithio ar ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim fwy na disgyblion nad ydynt yn gymwys. (Gweler **Tabl 6** y papur hwn)

## Categoreiddio ysgolion

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **ganlyniadau categoreiddio ysgolion** ar gyfer 2017 ar 1 Chwefror 2018. Prif ddiben y system categoreiddio yw nodi ysgolion sydd â'r angen mwyaf am gymorth.

Amlygodd **Llywodraeth Cymru** y canlynol:

- Mae 85.3 y cant o ysgolion cynradd a 68.3 y cant o ysgolion uwchradd yn y categorïau gwyrdd a melyn erbyn hyn. Mae'r cynnydd hwn ers y llynedd yn parhau'r **duedd a welwyd ers 2015**.
- Gwelwyd **cynnydd bach iawn yn y gyfran o ysgolion coch** - y rheini y nodir bod angen y cymorth mwyaf arnynt. Gwelwyd cynnydd o 0.4 pwynt canran yn y sector cynradd a 2.9 pwynt canran yn y sector uwchradd.
- Mae 45 y cant o ysgolion arbennig wedi'u categoreiddio'n ysgolion gwyrdd, sef y categori o ysgolion y mae angen y cymorth lleiaf arnynt. Nid oes un ysgol arbennig yn y categori coch, sef y rheini y mae angen y cymorth mwyaf arnynt.

## Mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad o ran amddifadedd

Mae'r Papur Briffio hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil yn cyflwyno ystadegau ar gyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim o'i gymharu â disgyblion nad ydynt yn gymwys a chyfanswm y garfan o ddisgyblion. Cymhwysedd am brydau ysgol am ddim yw'r procsi a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer amddifadedd ymhlith disgyblion ysgol.

Mae hyn yn arwyddocaol oherwydd, yn ogystal â chodi safonau ysgolion a pherfformiad disgyblion yn gyffredinol, mae gan Lywodraeth Cymru amcan penodol o leihau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad disgyblion o gefndiroedd difreintiedig a'u cyfoedion. Y **Grant Datblygu Disgyblion (y Grant 'Amddifadedd' gynt)**, sy'n darparu cyllid ychwanegol i ysgolion yn seiliedig ar nifer y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim ar eu cofrestr, yw'r prif ysgogiad a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i gyflawni'r nod hwn.

Dywedd Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, wrth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ystod y [gwaith craffu ar gyllideb ddrafft 2017-2018 \(PDF 947KB\)](#) ym mis Tachwedd 2016:

---

*Rwy'n disgwyl y bydd ein polisiau i gyd yn helpu i godi safonau a chau rhagor ar y bwloch cyrhaeddiad rhwng disgyblion o'n cymunedau mwyaf difreintiedig a'r rheini o ardaloedd mwy llewyrchus.*

---

## Cefnogi ysgolion sy'n tanberfformio

Mae'r papur hwn hefyd yn cynnwys data ar gyrhaeddiad disgyblion mewn ysgolion a gymerodd ran yn y rhaglen **Her Ysgolion Cymru**. Drwy'r rhaglen hon, a oedd ar waith rhwng 2014 a 2017, rhoddodd Llywodraeth Cymru **gyllid a chymorth ychwanegol i ysgolion a oedd yn tanberfformio** ac yn wynebu'r heriau mwyaf. Ysgolion 'Llwybrau Llwyddiant' oedd yr enw ar yr ysgolion hyn.

**Ni pharhawyd y rhaglen** gan Lywodraeth Cymru y tu hwnt i'w thair blynedd ariannol ac academaidd, gan ddweud ei bod bob amser wedi bod yn rhaglen am 'gyfnod cyfyngedig'. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi dweud y bydd gwersi ac etifeddiaeth Her Ysgolion Cymru yn cael eu defnyddio i lywio gwelliannau mewn ysgolion yn fwy cyffredinol.

## Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal ymchwiliad i gyllid Llywodraeth Cymru sydd wedi'i dargedu i **wella canlyniadau addysgol ymhlith grwpiau penodol o ddisgyblion ac ysgolion**. Bydd yr ymchwiliad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar y Grant Datblygu Disgyblion sy'n parhau a rhaglen Her Ysgolion Cymru a gafodd ei dirwyn i ben. Ni fydd yn edrych yn benodol ar y £100 miliwn cyffredinol a addawyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y Cynulliad hwn (hyd at fis Mawrth 2021) ar gyfer codi safonau ysgolion yn gyffredinol.

Cyhoeddodd y [Pwyllgor alwad am dystiolaeth ysgrifenedig](#) rhwng mis Tachwedd 2017 a mis Ionawr 2018 a bydd yn cymryd tystiolaeth lafar ym mis Chwefror a mis Mawrth 2018. Drwy gyflwyno a chrynhai data cyrhaeddiad allweddol, bwriedir i'r Papur Briffio hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil lywio trafodaethau a gwaith casglu tystiolaeth y Pwyllgor.



## 2. Mynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad

### Y Grant Datblygu Disgyblion

Roedd mynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar ganlyniadau addysgol yn un o dair blaenoriaeth addysg Llywodraeth Cymru yn y Cynulliad blaenorol. Ar ôl ei phenodi i'r Cabinet, [cytunodd Kirsty Williams ar ddeg blaenoriaeth addysg gyda'r Prif Weinidog](#), a oedd yn cynnwys ymrwymiad i gynnal y Grant Amddifadedd Disgyblion drwy gydol y Cynulliad hwn. Ym mis Ebrill 2017, newidiodd Ysgrifennydd y Cabinet enw'r grant i'r Grant Datblygu Disgyblion, er iddi gadarnhau y byddai'r Grant yn cadw'r un pwyslais ar ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.<sup>3</sup>

Cyflwynwyd y Grant Datblygu Disgyblion yn y flwyddyn ariannol 2012-13. Mae'n darparu **arian ychwanegol i ysgolion yn seiliedig ar nifer y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim** ar eu cofrestr. Telir £1,150 fesul disgybl cymwys. Mae'r Grant hefyd yn darparu arian i gonsortia rhanbarthol i'w wario ar blant sy'n derbyn gofal a phlant mabwysiedig, eto ar sail £1,150 y plentyn.

Yn 2015-16, estynnwyd y Grant i'r Blynyddoedd Cynnar (3-5 oed: hyd at a chan gynnwys blwyddyn Derby) ar sail £300 fesul plentyn cymwys. Cododd hyn i £600 yn 2017-18.

Nodir mai cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer y Grant yn 2018-19 yw **£94 miliwn**.

### Faint o blant sy'n gymwys ar gyfer cronfeydd y Grant Datblygu Disgyblion a sut y mae'r arian yn cael ei ddyrannu?

Isod ceir dadansoddiad o sut y dyrannwyd y Grant yn 2017-18<sup>4</sup> (allosodwyd o wybodaeth ar [wefan Llywodraeth Cymru](#)):

- Mae tua **67,000 o ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim** mewn ysgolion a gynhelir (Blwyddyn 1 i Flwyddyn 11) yn denu £1,150 am gost o £77 miliwn.
- Mae 605 o blant sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (Blwyddyn 1 i Flwyddyn 11) yn denu Grant Datblygu Disgyblion £1,150 am gost o £700,000.
- Mae tua **13,000 o blant mewn dosbarthiadau meithrin a derbyn** mewn ysgolion a gynhelir yr amcangyfrifir eu bod yn gymwys am brydau ysgol am ddim yn denu £600 o Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar am gost o £8.2 miliwn.
- Mae 158 o blant mewn ysgolion meithrin yr amcangyfrifir eu bod yn gymwys am brydau ysgol am ddim yn denu £600 o Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar am gost o £95,000.
- Mae 1,011 o blant sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol yn y blynyddoedd cynnar yn denu £600 o Grant Datblygu Disgyblion am gost o £600,000.
- Bydd **£4.5 miliwn** yn cael ei dalu i'r consortia addysg rhanbarthol i'w ddsbarthu i'w ddefnyddio ar gyfer **plant sy'n derbyn gofal a phlant mabwysiedig**, ar sail **3,907 o blant** sydd wedi'u cofrestru fel rhai sy'n derbyn gofal.

---

<sup>3</sup> Mewn ateb i [WAQ73368 ym mis Ebrill 2017](#) ac yng nghyfarfod y [Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 14 Mehefin 2017 \(PDF 340KB\)](#)

<sup>4</sup> Telir cyllid gan Lywodraeth Cymru naill ai i gonsortia rhanbarthol, awdurdodau lleol neu ysgolion yn hytrach na i ddisgyblion neu eu teuluoedd.

## Gwerthuso

Comisiynodd Llywodraeth Cymru **ddau werthusiad** o'r Grant Datblygu Disgyblion. Mae **Ipsos MORI a WISERD** wedi cynnal gwerthusiad o broses ac effaith y Grant Datblygu Disgyblion oedran ysgol mewn tri chyfnod blynyddol, tra bod y **Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg** yn gwerthuso sut y mae Grant Datblygu Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar yn cael ei ddehongli a'i weithredu'n ymarferol.

Cyhoeddwyd yr **adroddiad gwerthuso terfynol** gan **Ipsos MORI a WISERD** gan Lywodraeth Cymru ar 13 Rhagfyr 2017. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd adroddiad y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg yn cael ei gyhoeddi maes o law.

Daeth Ipsos MORI a WISERD i'r casgliad bod dadansoddiad o ddata canlyniadau disgyblion **yn ddarlun calonogol** o ran effaith y Grant Datblygu Disgyblion ar ganlyniadau addysgol. Fodd bynnag, maent hefyd yn nodi bod rhai o'r gwelliannau mwyaf i leihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'u cyfoedion **wedi digwydd cyn cyflwyno'r Grant**. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd penderfynu faint o'r duedd hon y gellir ei phriodoli'n uniongyrchol i'r Grant Datblygu Disgyblion.

Mae Ipsos MORI a WISERD yn adrodd bod **golwg hirdymor** o gynnydd disgyblion yn **hanfodol** wrth werthuso effeithiolrwydd y grant. Noder hefyd mai dim ond data hyd at 2015 yr oedd Ipsos MORI a WISERD wedi'u dadansoddi a bod dwy flynedd arall o ddata cyrhaeddiad ers hynny. Ar ôl sawl blwyddyn o gau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'u cyfoedion, ehangodd hwn yn 2017, fel y mesurwyd gan y mesurau diwygiedig ar gyfer trothwy Lefel 2 a throthwy cynwysedig Lefel 2 a'r TGAU Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth newydd.

Isod ceir crynodeb o rai o ganfyddiadau eraill Ipsos MORI a WISERD:

- Mae ysgolion yn ystyried cyllid Grant Datblygu Disgyblion yn **amhrisiadwy**. Fe'i defnyddir i raddau helaeth ar gynorthwyr addysgu yn hytrach nag athrawon, efallai oherwydd diffyg sicrwydd hirdymor ar gyfer y cyllid.
- Mae ysgolion yn defnyddio **cysyniad ehangach o anfantais na dim ond cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim**. Maent yn ychwanegu at incwm y Grant Datblygu Disgyblion o'u cyllideb eu hunain i ariannu ymyriadau sy'n cefnogi grŵp ehangach o ddisgyblion.
- Ceir **amwysedd ac anghysondeb** ynghylch p'un a yw'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob disgybl sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim (gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim sy'n Fwy Galluog a Thalentog) neu dim ond ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim sydd â chyrhaeddiad isel.
- Mae'r Grant Datblygu Disgyblion wedi arwain at **newid diwylliant** a chodi proffil yr agenda amddifadedd/cyrhaeddiad. Ceir ffocws cynyddol ar strategaethau ysgol-gyfan.
- Mae ysgolion yn gwneud **defnydd annigonol o'r Pecyn Cymorth Sutton** ac arbenigedd academiaidd allanol.
- Mae gan y **consortia rhanbarthol** rôl bwysig i'w chwarae wrth gefnogi defnydd effeithiol o'r Grant.

## Data cyrhaeddiad Cymru Gyfan, yn ôl cymhwysedd disgyblion i gael prydau ysgol am ddim

Mae **Tablau 1-6** isod yn dangos y data diweddaraf sydd wedi'u cyhoeddi ar gyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim ar draws Cymru gyfan. At ddibenion cymharol, cyflwynir y data ochr yn ochr â'r data ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim, a phob disgybl (cyfanswm y garfan sy'n cynnwys disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim).

- Mae Tabl 1 yn dangos data ar gyrhaeddiad trothwy cynwysedig Lefel 2.
- Mae Tabl 2 yn dangos data ar gyrhaeddiad trothwy Lefel 2.
- Mae Tabl 3 yn dangos data ar gyrhaeddiad graddau A\*-C mewn TGAU Saesneg (y gorau rhwng Iaith neu Lenyddiaeth).
- Mae Tabl 4 yn dangos data ar gyrhaeddiad graddau A\*-C mewn TGAU Cymraeg (y gorau rhwng Iaith neu Lenyddiaeth).
- Mae Tabl 5 yn dangos data ar gyrhaeddiad A\*-C mewn TGAU Mathemateg.
- Mae Tabl 6 yn dangos data ar gyrhaeddiad A\*-C mewn TGAU Gwyddoniaeth

**Tabl 1: Cyflawniad trothwy cynwysedig Lefel 2 yn ôl cymhwysedd am brydau ysgol am ddim – Cymru Gyfan**

*Canran y disgyblion sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2 cynhwysol*

	eFSM	dim eFSM	<b>bwllch pwynt %</b>	eFSM	Pob disgybl	<b>bwllch pwynt %</b>
2009	20.1	52.1	<b>32.0</b>	20.1	47.2	<b>27.1</b>
2010	20.7	54.6	<b>33.9</b>	20.7	49.4	<b>28.7</b>
2011	22.0	55.7	<b>33.7</b>	22.0	50.1	<b>28.1</b>
2012	23.4	56.6	<b>33.2</b>	23.4	51.1	<b>27.7</b>
2013	25.8	58.5	<b>32.7</b>	25.8	52.7	<b>26.9</b>
2014	27.8	61.6	<b>33.8</b>	27.8	55.4	<b>27.6</b>
2015	31.6	64.1	<b>32.5</b>	31.6	57.9	<b>26.3</b>
2016	35.6	66.8	<b>31.2</b>	35.6	60.3	<b>24.7</b>
2017	28.6	61.0	<b>32.4</b>	28.6	54.6	<b>26.0</b>

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Datganiad Ystadegol Cyntaf: [Canlyniadau arholiadau yng Nghymru 2016/17](#), Tablau 1 a 5, 6 Rhagfyr 2017. Cyfrifiadau gan Wasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Nodiadau:

- i) Trothwy cynwysedig Lefel 2 = 5 TGAU neu fwy, graddau A\*-C, gan gynnwys Mathemateg ac Iaith Gymraeg/Saesneg, neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol. Yn 2017, newidiodd Llywodraeth Cymru sut y mae'r trothwy cynwysedig Lefel 2 yn cael ei gofnodi, gan roi cap ar nifer y cymwysterau galwedigaethol y gellir eu cyfrif. O 2017 ymlaen, cafodd hyn ei gyfyngu i 40 y cant, h.y. dim ond am hyd at 2 o'r 5 TGAU y gall cymwysterau galwedigaethol gyfrif. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud nad yw cymariaethau rhwng 2017 a blynyddoedd blaenorol yn ddilys yn ystadegol.
- ii) Gweler tudalen 1 ac adran Nodiadau [datganiad ystadegol Rhagfyr 2017](#), [blog y Prif Ystadegydd](#) a [datganiad i'r wasg Llywodraeth Cymru](#) ar 6 Rhagfyr am drafodaeth bellach o'r broblem o ran cymariaethau rhwng blynyddoedd. Mae newidiadau eraill yn 2017 yn cynnwys yr arholiadau cyntaf o fanylebau newydd TGAU Cymraeg, Saesneg a Mathemateg (gan gynnwys Rhifedd Mathemateg am y tro cyntaf) a diystyru Llenyddiaeth Cymraeg a Saesneg at ddibenion trothwy cynwysedig Lefel 2.
- iii) Mae data 2016 a 2017 yn seiliedig ar y garfan o ddisgyblion ym Mlwyddyn 11. Mae data blynyddoedd blaenorol yn seiliedig ar ddisgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

**Tabl 2: Cyflawniad trothwy Lefel 2 yn ôl cymhwysedd am brydau ysgol am ddim – Cymru Gyfan***Canran y disgyblion sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2*

	eFSM	dim eFSM	<b>bwllch pwynt %</b>	eFSM	Pob disgybl	<b>bwllch pwynt %</b>
2009	32.5	66.4	<b>33.9</b>	32.5	60.7	<b>28.2</b>
2010	35.3	69.6	<b>34.3</b>	35.3	63.8	<b>28.5</b>
2011	40.9	73.5	<b>32.6</b>	40.9	67.3	<b>26.4</b>
2012	50.9	78.0	<b>27.1</b>	50.9	72.6	<b>21.7</b>
2013	57.8	83.0	<b>25.2</b>	57.8	77.8	<b>20.0</b>
2014	65.3	87.4	<b>22.1</b>	65.3	82.3	<b>17.0</b>
2015	69.4	88.9	<b>19.5</b>	69.4	84.1	<b>14.7</b>
2016	71.6	89.0	<b>17.4</b>	71.6	84.0	<b>12.4</b>
2017	41.3	73.6	<b>32.3</b>	41.3	67.0	<b>25.7</b>

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Datganiad Ystadegol Cyntaf: [Canlyniadau arholiadau yng Nghymru 2016/17](#), Tablau 1 a 5, 6 Rhagfyr 2017. Cyfrifiadau gan Wasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Nodiadau:

- i) Trothwy cynwysedig Lefel 2 = 5 TGAU neu ragor, graddau A\*-C, neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol. Yn 2017, newidiodd Llywodraeth Cymru sut y mae'r trothwy Lefel 2 yn cael ei gofnodi, gan roi cap ar nifer y cymwysterau galwedigaethol y gellir eu cyfrif. O 2017 ymlaen, cafodd hyn ei gyfyngu i 40 y cant, h.y. dim ond am hyd at 2 o'r 5 TGAU y gall cymwysterau galwedigaethol gyfrif. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud nad yw cymariaethau rhwng 2017 a blynyddoedd blaenorol yn ddilys yn ystadegol.
- ii) Gweler tudalen 1 ac adran Nodiadau [datganiad ystadegol Rhagfyr 2017](#), [blog y Prif Ystadegydd](#) a [datganiad i'r wasg Llywodraeth Cymru](#) ar 6 Rhagfyr am drafodaeth bellach o'r broblem o ran cymariaethau rhwng blynyddoedd. Mae newidiadau eraill yn 2017 yn cynnwys yr arholiadau cyntaf o fanylebau newydd TGAU Cymraeg, Saesneg a Mathemateg (gan gynnwys Rhifedd Mathemateg am y tro cyntaf) a diystyru Llenyddiaeth Cymraeg a Saesneg at ddibenion trothwy Lefel 2.
- iii) Mae data 2016 a 2017 yn seiliedig ar y garfan o ddisgyblion ym Mlwyddyn 11. Mae data blynyddoedd blaenorol yn seiliedig ar ddisgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

**Tabl 3: Cyrhaeddiad graddau A\*-C mewn TGAU Saesneg - Cymru Gyfan***Canran o ddisgyblion yn ennill gradd A\*-C mewn TGAU Saesneg laith neu Lenyddiaeth*

	eFSM	dim eFSM	bwloch pwynt %	eFSM	Pob disgybl	bwloch pwynt %
2009	34.3	66.4	32.1	34.3	61.0	26.7
2010	34.8	68.3	33.5	34.8	62.7	27.9
2011	35.6	68.7	33.1	35.6	62.8	27.2
2012	35.9	67.8	31.9	35.9	62.2	26.3
2013	36.6	68.6	32.0	36.6	62.9	26.3
2014	39.8	72.3	32.5	39.8	66.2	26.4
2015	45.1	74.5	29.4	45.1	68.6	23.5
2016	47.1	75.5	28.4	47.1	69.3	22.2
2017	41.7	72.5	30.8	41.7	66.2	24.5

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, StatsCymru: *Dangosyddion craidd Cyfnod Allweddol 4 yn ôl hawl i Brydau Ysgol Am Ddim ac ardal*. Darparwyd data 2017 gan Lywodraeth Cymru ar gais. Cyfrifiadau gan Wasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Nodiadau:

- i) Y garfan a oedd yn sefyll yr arholiadau yn 2017 oedd y gyntaf i ymgymryd â manylebau newydd TGAU laith Saesneg a TGAU Llenyddiaeth Saesneg.
- ii) Mae'r tabl hwn yn darparu data 2017 ar gyfer canlyniad gorau disgyblion mewn TGAU laith neu Lenyddiaeth Saesneg er mwyn hwyluso cymariaethau â blynyddoedd blaenorol. Mae data 2017 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn cofnodi cyrhaeddiad A\*-C mewn TGAU laith Saesneg yn hytrach na'r gorau o laith neu Lenyddiaeth, yn unol â'i newidiadau i fesurau perfformiad.
- iii) Mae data 2016 a 2017 yn seiliedig ar y garfan o ddisgyblion ym Mlwyddyn 11. Mae data blynyddoedd blaenorol yn seiliedig ar ddisgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd.

**Tabl 4: Cyrhaeddiad graddau A\*-C mewn TGAU Cymraeg (laith Gyntaf) - Cymru Gyfan***Canran o ddisgyblion yn ennill gradd A\*-C mewn TGAU Cymraeg laith neu Lenyddiaeth*

	eFSM	dim eFSM	<b>bwllch pwynt %</b>	eFSM	Pob disgybl	<b>bwllch pwynt %</b>
2009	51.1	76.9	<b>25.8</b>	51.1	75.0	<b>23.9</b>
2010	46.3	75.6	<b>29.3</b>	46.3	73.4	<b>27.1</b>
2011	48.7	76.7	<b>28.0</b>	48.7	74.6	<b>25.9</b>
2012	46.0	76.2	<b>30.2</b>	46.0	73.8	<b>27.8</b>
2013	53.8	75.3	<b>21.5</b>	53.8	73.5	<b>19.7</b>
2014	48.6	75.8	<b>27.2</b>	48.6	73.7	<b>25.1</b>
2015	51.5	77.2	<b>25.7</b>	51.5	75.2	<b>23.7</b>
2016	50.9	77.7	<b>26.8</b>	50.9	75.1	<b>24.2</b>
2017	54.4	76.6	<b>22.2</b>	54.4	74.5	<b>20.1</b>

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, StatsCymru; [\*Dangosyddion craidd Cyfnod Allweddol 4 yn ôl hawl i Brydau Ysgol Am Ddim ac ardal\*](#). Darparwyd data 2017 gan Lywodraeth Cymru ar gais. Cyfrifiadau gan Wasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Nodiadau:

- i) Y garfan a oedd yn sefyll yr arholiadau yn 2017 oedd y gyntaf i ymgymryd â manylebau newydd TGAU laith Gymraeg a TGAU Llenyddiaeth Gymraeg.
- ii) Mae'r tabl hwn yn darparu data 2017 ar gyfer canlyniad gorau disgyblion mewn TGAU laith neu Lenyddiaeth Gymraeg er mwyn hwyluso cymariaethau â blynyddoedd blaenorol. Mae data 2017 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn cofnodi cyrhaeddiad A\*-C mewn TGAU laith Gymraeg yn hytrach na'r gorau o laith neu Lenyddiaeth, yn unol â'i newidiadau i fesurau perfformiad.
- iii) Mae data 2016 a 2017 yn seiliedig ar y garfan o ddisgyblion ym Mlwyddyn 11. Mae data blynyddoedd blaenorol yn seiliedig ar ddisgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

**Tabl 5: Cyrhaeddiad graddau A\*-C mewn TGAU Mathemateg - Cymru Gyfan***Canran o ddisgyblion yn ennill gradd A\*-C mewn TGAU Mathemateg*

	eFSM	dim eFSM	<b>bwlch pwynt %</b>	eFSM	Pob disgybl	<b>bwlch pwynt %</b>
2010	27.0	61.0	<b>34.0</b>	27.0	55.7	<b>28.7</b>
2011	29.0	62.2	<b>33.2</b>	29.0	56.5	<b>27.5</b>
2012	31.3	63.8	<b>32.5</b>	31.3	58.4	<b>27.1</b>
2013	33.7	65.9	<b>32.2</b>	33.7	60.3	<b>26.6</b>
2014	34.5	67.7	<b>33.2</b>	34.5	61.7	<b>27.2</b>
2015	39.2	70.1	<b>30.9</b>	39.2	64.4	<b>25.2</b>
2016	43.6	73.2	<b>29.6</b>	43.6	66.9	<b>23.3</b>
2017	38.3	68.6	<b>30.3</b>	38.3	62.5	<b>24.2</b>

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, StatsCymru: [\*Dangosyddion craidd Cyfnod Allweddol 4 yn ôl hawl i Brydau Ysgol Am Ddim ac ardal\*](#). Cyfrifiadau gan Wasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Nodiadau:

- i) Y garfan a fu'n sefyll arholiadau yn 2017 oedd y gyntaf i ymgymryd â'r manylebau newydd ar gyfer TGAU Mathemateg a TGAU Rhifedd Mathemateg.
- ii) Mae data 2017 yn seiliedig ar ganlyniad gorau'r disgyblion o naill ai TGAU Mathemateg neu TGAU Rhifedd Mathemateg. Mae'r data cyn 2017 yn seiliedig ar y TGAU Mathemateg blaenorol.
- iii) Mae data 2016 a 2017 yn seiliedig ar y garfan o ddisgyblion ym Mlwyddyn 11. Mae data blynyddoedd blaenorol yn seiliedig ar ddisgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd.



**Tabl 6: Cyrhaeddiad graddau A\*-C mewn TGAU Gwyddoniaeth - Cymru Gyfan***Canran o ddisgyblion yn ennill gradd A\*-C mewn TGAU Gwyddoniaeth*

	eFSM	dim eFSM	<b>bwllch pwynt %</b>	eFSM	Pob disgybl	<b>bwllch pwynt %</b>
2010	36.3	69.2	<b>32.9</b>	36.3	63.6	<b>27.3</b>
2011	40.5	71.8	<b>31.3</b>	40.5	65.9	<b>25.4</b>
2012	50.7	75.9	<b>25.2</b>	50.7	70.6	<b>19.9</b>
2013	59.6	79.5	<b>19.9</b>	59.6	74.8	<b>15.2</b>
2014	71.5	86.6	<b>15.1</b>	71.5	82.3	<b>10.8</b>
2015	74.4	88.4	<b>14.0</b>	74.4	84.0	<b>9.6</b>
2016	71.8	86.8	<b>15.0</b>	71.8	82.4	<b>10.6</b>
2017	57.1	81.1	<b>24.0</b>	57.1	75.6	<b>18.5</b>

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, StatsCymru: [\*Dangosyddion craidd Cyfnod Allweddol 4 yn ôl hawl i Brydau Ysgol Am Ddim ac ardal\*](#). Cyfrifiadau gan Wasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Nodiadau:

- i) Mae'r ffigurau'n cynnwys gwyddoniaeth sengl neu ddwbl, neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol. O 2018 ymlaen, ni fydd cymwysterau gwyddoniaeth galwedigaethol yn cyfrif tuag at y sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio, sy'n fesur perfformiad allweddol. Mae'n bosibl bod hyn wedi arwain at y newid mewn ceisiadau am gymwysterau gwyddoniaeth galwedigaethol i gymwysterau TGAU Gwyddoniaeth, i baratoi ar gyfer y newidiadau yn 2018.
- ii) Mae data 2016 a 2017 yn seiliedig ar y garfan o ddisgyblion ym Mlwyddyn 11. Mae data blynyddoedd blaenorol yn seiliedig ar ddisgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

## Dadansoddiad cryno

Ceir crynodeb o'r prif bwyntiau o'r data yn Nhablau 1-6 isod. Noder na ddylid ystyried cymariaethau mewn perthynas â throthwy Lefel 2 a mesurau trothwy cynwysedig Lefel 2 rhwng 2017 a blynyddoedd blaenorol ar sail tebyg am debyg gan fod Llywodraeth Cymru wedi newid y ffordd y caiff y trothwy ei fesur.<sup>5</sup>

**Trothwy cynwysedig Lefel 2** (5 TGAU neu fwy, graddau A\*-C yn cynnwys Mathemateg ac Iaith Gymraeg/Saesneg, neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol.) **(Tabl 1)**

- Cynyddodd y gyfran o **ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim** a gyflawnodd drothwy cynwysedig Lefel 2 o un flwyddyn i'r llall rhwng 2009 a 2016, o 20.1 y cant i 35.6 y cant, cyn **gostwng yn 2017 i 28.6 y cant**.
- Cafwyd tuedd debyg ar gyfer **pob disgybl**. Cynyddodd y gyfran a gyflawnodd drothwy cynwysedig Lefel 2 o un flwyddyn i'r llall, o 47.2 y cant yn 2009 i 60.3 y cant yn 2016, cyn **gostwng i 54.6 y cant yn 2017**.
- Lleihaodd y **bwllch** rhwng cyfran y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim sy'n cyflawni trothwy cynwysedig Lefel 2 a **disgyblion nad ydynt yn gymwys** o 33.9 pwynt canran yn 2010 i 31.2 yn 2016, cyn **cynyddu i 32.4 pwynt canran yn 2017**.

<sup>5</sup> Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud nad yw cymariaethau rhwng blynyddoedd yn ddilys yn ystadegol mwyach oherwydd newidiadau yn y ffordd y caiff trothwy Lefel 2 ei fesur. Gweler tudalen 1 ac adran Nodiadau [\*\*datganiad ystadegol Rhagfyr 2017, blog y Prif Ystadegydd a datganiad i'r wasg Llywodraeth Cymru\*\*](#) ar 6 Rhagfyr. Mae'r prif newidiadau'n ymwneud â manylebau newydd TGAU Cymraeg, Saesneg a Mathemateg, y cafwyd yr arholiadau cyntaf yn 2017, cyfyngiad o ddau gymhwyster galwedigaethol y gellir eu cyfrif a gwahardd llenyddiaeth o gyrhaeddiad Cymraeg neu Saesneg at ddibenion mesur y trothwy Lefel 2.

### **Trothwy Lefel 2 (5 TGAU neu fwy, graddau A\*-C, neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol)**

- Mae ail-ledu'r bwlch cyrhaeddiad o ran amddifadedd yn 2017, ar ôl gwelliant parhaus ers 2010, yn **fwy amlwg ymhlith y mesur trothwy Lefel 2** (5 TGAU neu fwy A\*-C, nad ydynt yn cynnwys Mathemateg a Chymraeg/Saesneg o reidrwydd). Lleihaodd **y bwlch rhwng cyfran y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys** o 34.3 pwynt canran yn 2010 i 17.4 yn 2016, ond mae wedi **bron â dyblu i 32.2 pwynt canran yn 2017**.
- Mae hyn o ganlyniad i **ostyngiad** yn y gyfran o **ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim** sy'n cyrraedd y trothwy Lefel 2 o **71.6 y cant yn 2016 i 41.3 y cant yn 2017**.
- Mae cyfradd cyrhaeddiad Lefel 2 ar gyfer **pob disgybl wedi gostwng o 84.0 y cant yn 2016 i 67.0 y cant yn 2017**, ond ymhlith **disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim**, mae **wedi gostwng o 89.0 y cant yn 2016 i 73.6 y cant yn 2017**.

Fel y nodwyd uchod, nid yw dod i gasgliadau ar gyfer perfformiad 2017 yn erbyn trothwy Lefel 2 a mesurau trothwy cynwysedig Lefel 2 yn gymhariaeth ddilys yn ystadegol. Fodd bynnag, mae hyn yn dangos y cyfraniad y mae cymwysterau galwedigaethol wedi'i wneud dros y blynyddoedd i gyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r trothwy. Mae'r data'n awgrymu y gallai hyn fod yn wir i raddau helaeth ymhlith disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.

### **TGAU Saesneg (Tabl 3)**

- Cynyddodd y gyfran o'r **holl ddisgyblion** a oedd yn ennill graddau A\*-C mewn TGAU Saesneg (y canlyniad gorau o laith neu Lenyddiaeth) o un flwyddyn i'r llall rhwng 2012 a 2016, o 62.2 y cant i 69.3 y cant, hyd at **ostyngiad yn 2017 i 66.2 y cant**.
- Gostyngodd y gyfradd o **ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim** a oedd yn ennill TGAU Saesneg A\*-C gan fwy nag ymhlith yr holl ddisgyblion, gan **leihau** o 47.1 y cant yn 2016 i **41.7 y cant yn 2017**. Roedd hyn yn dilyn cynnydd o un flwyddyn i'r llall ers 2009 pan oedd yn 34.3 y cant.
- Lleihaodd y **bwlch** rhwng cyfran y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim sy'n ennill TGAU Saesneg A\*-C a disgyblion nad ydynt yn gymwys o 33.5 pwynt canran yn 2010 i 28.4 yn 2016, cyn **ehangu i 30.8 pwynt canran yn 2017**.

2017 oedd y garfan flynyddol gyntaf o ddisgyblion a oedd yn sefyll yr arholiadau yn erbyn y manylebau newydd ar gyfer TGAU Saesneg.

### **TGAU Cymraeg (Tabl 4)**

- Cynyddodd y gyfran o'r **disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim** a oedd yn ennill graddau A\*-C mewn TGAU Cymraeg (laith Gyntaf, y canlyniad gorau o laith neu Lenyddiaeth) o **50.9 y cant yn 2016 i 54.4 y cant yn 2017**.
- Mae hyn er gwaethaf **gostyngiad ymhlith yr holl ddisgyblion**, o 75.1 y cant yn 2016 i 74.5 y cant yn 2017.
- O ganlyniad i hyn, lleihaodd y **bwlch mewn cyrhaeddiad** ar gyfer TGAU Cymraeg rhwng disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys o 26.8 pwynt canran yn 2016 i **22.2 pwynt canran yn 2017**. Dyma'r isaf y mae wedi bod o fewn y gyfres ddata hon a ddefnyddir yn y papur hwn sy'n mynd yn ôl i 2009, ac eithrio 2013 pan oedd yn 21.5 pwynt canran.

2017 oedd y garfan flynyddol gyntaf o ddisgyblion a oedd yn sefyll yr arholiadau yn erbyn y manylebau newydd ar gyfer TGAU Cymraeg.

### **TGAU Mathemateg (Tabl 5)**

- Cynyddodd y gyfran o **ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim** a oedd yn ennill graddau A\*-C mewn TGAU Mathemateg o un flwyddyn i'r llall rhwng 2010 a 2016, o 27.0 y cant i 43.6 y cant. Fodd bynnag, **gostyngodd i 38.3 y cant yn 2017**.
- Cafwyd tuedd debyg ar gyfer **pob disgybl**. Cynyddodd y gyfran a enillodd graddau A\*-C o un flwyddyn i'r llall, o 55.7 y cant yn 2010 i 66.9 y cant yn 2017, cyn **gostwng i 62.5 y cant yn 2017**.
- Lleihau wnaeth y **bwllch** rhwng cyfran y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a oedd yn ennill graddau A\*-C mewn Mathemateg a disgyblion nad ydynt yn gymwys o 34.0 pwynt canran yn 2010 i 29.6 yn 2016, cyn **cynyddu eto i 30.3 pwynt canran yn 2017**.

